# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 10 Ebrill 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Sonia Williams (Is-gadeirydd) (Yn y Gadair)<br>Y Cynghorydd Geraint Bebb (Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig)<br><br>Y Cynghorwyr John Ifan Jones, R. Llewelyn Jones, Jackie Lewis, Llio Owen, Keith Roberts, Ieuan Williams, Arfon Wyn.<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorwyr Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer), Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo). |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr (ar gyfer eitemau 1 a 3 a rhan o eitem 4)<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (HP)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Democratiaeth (DS)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Cynorthwyydd Gwasanaethau Democratiaeth (CH) (gweddarlledu) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Douglas Fowlie, Aled M. Jones, Alwen Watkin, Mr John Tierney (Aelod Cyfetholedig)<br>Y Cynghorwyr Neville Evans (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol), Dyfed Wyn Jones (Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd), Mr Rhys H. Hughes (Dirprwy Brif Weithredwr), Mr Aaron Evans (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Amherthnasol |

---

Roedd y Cadeirydd, y Cynghorydd Douglas Fowlie, yn bresennol yn ystod y cyflwyniadau cychwynnol ond fe adawodd y cyfarfod yn syth wedyn oherwydd ymrwymiad personol. Cadeiriwyd gweddill y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Sonia Williams. Etholwyd Y Cynghorydd Geraint Bebb i fod yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Jackie Lewis a'r Cynghorydd Llio Angharad Owen ddiddordeb personol yn unig mewn perthynas ag eitem 3 ar y rhaglen.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir. Amlinellwyd a nodwyd cynnydd yn erbyn y gweithredoedd a gytunwyd yn y cyfarfod hwnnw.

## 3 AROLYGIAETH GOFAL CYMRU: LLYTHYR GWIRIAD GWASANAETHAU OEDOLION YNYS MÔN A'R CYNLLUN GWEITHREDU - ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried a'i graffu, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a oedd yn nodi cynnydd yn ystod y chwe mis diwethaf yn erbyn yr holl feysydd gwella yr oedd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi eu nodi yn dilyn ei arolygiad o'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2022, a'r adolygiad gwiriad gwella dilynol ym mis Mehefin 2024.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, Cydraddoldeb a Diogelwch Cymunedol. Cyflwynodd grynodeb o'r cefndir, gan ddweud bod AGC wedi adolygu'r Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion) ym mis Hydref 2022 fel rhan o'i Arolygiad Gwerthuso Perfformiad arferol. Roedd yr arolygiad yn amlygu meysydd cryfder, arfer dda a datblygiadau o fewn y gwasanaeth ac ni nodwyd unrhyw risgiau arwyddocaol na materion diogelu. Roedd yr ymweliad gwiriad gwella a gynhaliwyd gan AGC ym mis Mehefin 2024 yn asesu cynnydd mewn perthynas â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn flaenorol ac mae'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau a thystiolaeth. Lluniwyd Cynllun Datblygu er mwyn monitro gwelliannau a chyflwynwyd y cynllun a'r adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Hydref 2024. Gofynnodd y pwyllgor am ddiweddariad pellach mewn chwe mis ac mae'r adroddiad hwn yn ymateb i'r cais hwnnw ac mae'n cynnwys, yn Atodiad 1, gynllun datblygu gwasanaeth a ddiwygiwyd sydd yn manylu ar gynnydd yn ystod y cyfnod hwnnw, yn erbyn y meysydd gwella a amlygwyd gan CIW.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod adroddiadau a gwybodaeth wedi'u rhannu'n gyson ag AGC trwy gydol y broses a bod yr Arolygiaeth yn fodlon â'r hyn a gyflwynwyd. Trefnwyd cyfarfod terfynol ym mis Mai er mwyn cwblhau'r broses.

Wrth gydnabod y cynnydd cadarnhaol a'r gwelliant yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a amlygir yn yr adroddiad diweddaru, codwyd nifer o faterion gan y pwyllgor yn ystod y drafodaeth a ddilynodd ac ymatebodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, Cydraddoldeb a Diogelwch Cymunedol a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion iddynt fel a ganlyn –

- Gofynnwyd cwestiynau am yr hyfforddiant a ddarperir i staff gofal cartref a gofynnwyd am sicrwydd bod yr holl staff yn cwblhau rhaglen hyfforddi gynhwysfawr er mwyn eu galluogi i ddiwallu anghenion cleientiaid, gan sicrhau profiad cadarnhaol i'r cleient yn sgil hynny. Holwyd ymhellach am drosolwg a monitro trefniadau a gwasanaethau a ddarperir.

Hysbyswyd y pwyllgor fod gan AGC ofynion caeth o ran rheoleiddio staff ac mae ganddo ddisgwyliadau uchel o ran hyfforddi staff. Dylid dwyn unrhyw bryderon am y maes hwn i sylw'r gwasanaeth yn ddiymdroi. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y gwasanaeth yn monitro ac adolygu ansawdd y ddarpariaeth gofal cartref ac mae'n cael ei reoleiddio a'i arolygu gan gorff allanol hefyd, sef AGC.

- Holwyd am restrau aros a ph'un a fyddai unigolion yn parhau i wynebu oedi cyn derbyn gofal a chymorth.

Hysbyswyd y pwyllgor bod rhestrau aros wedi gostwng ym mhob maes ers yr arolygiad. Serch hynny, mae heriau'n parhau o ran darparu gofal, yn enwedig mewn perthynas â recriwtio staff, er bod y sefyllfa staffio wedi sefydlogi bellach. Nodwyd y gallai'r sefyllfa newid, yn dibynnu ar ffactorau megis galw, argaeledd gweithwyr, anghenion penodol unigolion ac amrywiadau tymhorol.

- Cyfeiriwyd at y ddarpariaeth eiriolaeth a holwyd beth yw'r trefniadau ar gyfer cynnig gwasanaethau eiriolaeth. Holwyd hefyd a yw canran cofnodi o 65% ar gyfartaledd yn haeddu statws Gwyrdd.

Hysbyswyd y pwyllgor fod eiriolaeth yn cael ei gynnig yn ystod y cyswllt cyntaf gyda'r cleient ac mae'r cynnig yn cael ei ailadrodd yn ystod cysylltiadau dilynol, neu pan fydd pecynnau gofal yn cael eu hadolygu. Mae hyn yn sicrhau fod unrhyw newidiadau o ran amgylchiadau, anghenion neu ddewisiadau'r cleient yn cael eu hystyried. Mae'r cynnig o eiriolaeth yn cael ei gofnodi ac mae cofnodion yn cael eu cadw er mwyn monitro mynediad i'r gwasanaeth a faint o bobl sy'n derbyn y cynnig. Er bod cael 100% o gleientiaid i dderbyn eiriolaeth yn her, oherwydd bod amgylchiadau'n newid, ystyrir bod cyfradd o 65% yn llwyddiant arwyddocaol. Serch hynny, mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i geisio sicrhau gwelliannau pellach yn y maes hwn.

- Nodwyd nad oes tystiolaeth gyson o lais a dewis pobl yn yr asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth. Gofynnwyd cwestiynau am y trefniadau sydd ar waith i gryfhau llais defnyddwyr gwasanaeth.

Hysbyswyd y pwyllgor fod gweithwyr cymdeithasol wedi derbyn canllawiau ymarfer ar gofnodi lleisiau defnyddwyr yn ystod asesiadau a bod ffurflenni wedi'u diwygio er mwyn casglu eu safbwyntiau yn well. Cydnabyddir pa mor bwysig yw cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn trafodaethau ynglŷn â'u gofal mewn hybiau a fforymau, er mwyn sicrhau fod eu lleisiau'n cael eu clywed. Nododd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, Cydraddoldeb a Diogelwch Cymunedol fod 110 o sylwadau cadarnhaol ynglŷn â gwasanaethau wedi'u derbyn erbyn diwedd Mawrth y llynedd, yn ogystal ag 19 o gwynion, ond nid oedd angen i ymchwilydd annibynnol ymchwilio'n ffurfiol i'r un o'r cwynion hynny.

- Nodwyd y byddai system gofnodi achosion digidol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn symud i system newydd a gofynnwyd am sicrwydd na fyddai cofnodion neu dystiolaeth, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, yn cael eu colli wrth gyflwyno'r system newydd, a bod trefniadau hefyd ar waith i gwrdd ag anghenion hyfforddi defnyddwyr y system. Gofynnwyd cwestiynau hefyd am y 631 o adroddiadau diogelu a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Oedolion a gofynnwyd am fwy o eglurder ynglŷn â chanlyniad y 236 o adroddiadau yr oedd angen gwneud ymholiadau diogelu yn eu cylch, er mwyn derbyn darlun mwy cyflawn o ymarfer diogelu.

Hysbyswyd y pwyllgor bod paratoadau'n mynd rhagddynt ar gyfer trosglwyddo i system ddigidol newydd, proses sy'n digwydd ar lefel genedlaethol gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cwblhawyd y broses flaenorol o fudo i'r system WCCIS yn llwyddiannus heb golli data, a rhoddwyd sicrwydd y byddai gwybodaeth yn cael ei ddiogelu hefyd wrth roi'r system newydd ar waith. Cafodd staff Gofal Cymdeithasol eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio ac addasu meddalwedd er mwyn diwallu anghenion lleol, a bydd yr holl staff yn derbyn cefnogaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio'r system yn fedrus. Yn ogystal, dyluniwyd y system newydd i dderbyn adborth ar y pryd gan ddefnyddwyr gwasanaeth y gellir ei ddefnyddio wedyn i wella gwasanaethau. Mae disgwyl i'r system newydd fynd yn fyw mewn 12 i 18 mis ac mae bwrdd trosolwg yn monitro ei weithrediad. Mewn ymateb i gwestiynau pellach ynglŷn â sicrhau fod adborth gan ddefnyddwyr

gwasanaeth yn cael ei gofnodi a'i dystiolaethu, hysbyswyd y pwyllgor fod dulliau ar gyfer casglu adborth yn cynnwys prosesau ffurfiol, megis cwynion a chanmoliaeth, a dulliau anffurfiol, megis cardiau diolch a mynegiant o ddiolch ar lafar. Mae AGC hefyd yn casglu barn defnyddwyr fel rhan o arolygiadau ac fe wnaeth yr arolygiaeth nodi bod nifer yr ymatebion gan ddefnyddwyr a dderbyniodd fel rhan o'i adolygiad o Wasanaethau Oedolion Ynys Môn yn uchel iawn. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y gwasanaeth yn ymgysylltu'n barhaus â defnyddwyr gwasanaeth trwy gydol y broses ofal er mwyn adnabod anghenion a dymuniadau'r unigolyn, gan ddechrau gyda'r sgwrs "Yr hyn sy'n bwysig".

Dywedodd y Prif Weithredwr fod symud i system newydd yn newid sylweddol ac mae hyn wedi cael ei nodi fel risg a chyfle i'r Gwasanaethau Cymdeithasol arfarnu arferion presennol, nodi gwelliannau a gwella effeithiolrwydd yn ystod y deuddeg mis nesaf.

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ddiweddariad ynglŷn â diogelu i aelodau, gan ddweud bod 22 o ymholiadau wedi'u derbyn ym mis Chwefror eleni a bod angen gweithredu ar 19 ohonynt. Mae'r gwasanaeth yn cadw cofnodion diogelu cynhwysfawr, gan gynnwys nifer yr achosion y mae angen cynllun diogelu ar eu cyfer ac unrhyw achosion sy'n arwain at ymchwiliad troseddol. Oherwydd natur sensitif y wybodaeth hon, mae cyfyngiadau ar yr hyn y gall y gwasanaeth ei ddatgelu; serch hynny, gellir cyflwyno data ar ffurf canrannau i'r pwyllgor.

- Holodd y pwyllgor am y camau a gymerwyd i sicrhau fod cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu hadolygu'n brydlon.

Hysbyswyd y pwyllgor y gallai cyfyngiadau o ran capasiti a llwyth gwaith trwm gweithwyr cymdeithasol effeithio ar y gallu i gynnal adolygiadau, ac mae achosion newydd neu frys yn cael blaenoriaeth dros achosion hirdymor, sefydlog. Er hynny, mae achosion sefydlog yn cael eu monitro'n rheolaidd trwy'r gwasanaethau a ddarperir a byddai adolygiad yn cael ei sbarduno pe byddai'r amgylchiadau'n newid.

- Cyfeiriwyd at bwysau'r gaeaf a gofynnwyd cwestiynau am ddull y gwasanaethau cymdeithasol o ddelio gyda phwysau'r gaeaf a'r gwersi a ddysgwyd o brofiadau'r gorffennol.

Hysbyswyd y pwyllgor ei bod yn bwysig cydweithio â phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â phwysau'r gaeaf ac amlygwyd gwerth defnyddio dull ataliol er mwyn gwella iechyd a llesiant. Mae'r gwasanaeth yn adlewyrchu'n rheolaidd ar sut mae'n rheoli pwysau'r gaeaf er mwyn nodi gwersi a gwella ymatebion yn y dyfodol. Nodwyd bod gwella sicrwydd ynghylch cyllido yn ffactor allweddol a allai arwain at gryfhau trefniadau cynllunio ar gyfer heriau'r gaeaf. Wrth ymateb i gwestiynau pellach ynglŷn ag a yw cyllideb y Gwasanaethau Oedolion yn ddigonol, dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion ei fod yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi buddsoddiad diweddar yr Awdurdod yn y gwasanaethau oedolion. Er hynny, dywedodd nad yw'r buddsoddiad yn ddigon i fynd i'r afael â'r holl heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth. Pwysleisiodd y byddai cyllidebau aml flwyddyn yn well, gan alluogi'r gwasanaeth i gynllunio'n fwy hyderus ar gyfer y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiynau ychwanegol ynglŷn â gofalwyr di-dâl, pwysleisiodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion fod hwn yn bwnc o ddiddordeb cenedlaethol ac yn destun trafodaeth barhaus. Cadarnhaodd iddo gyfarfod â gofalwyr di-dâl ar sawl achlysur, gan gynnwys yng Nghanolfan Glanhwfa ar gyfer pobl sy'n byw â dementia ac mewn hybiau cymunedol, a nododd fod y profiadau hynny'n rhai addysgiadol. Canmolodd y gofalwyr di-dâl am eu hymdrechion amhrisiadwy a thynnodd sylw at ymrwymiad yr Awdurdod i gefnogi eu hanghenion a hyrwyddo eu llesiant.

**Ar ôl adolygu a chraffu ar gynnydd wrth weithredu'r rhaglen waith ôl-arolygiad a nodi'r sicrwydd a ddarparwyd gan swyddogion a'r Aelod Portffolio, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol dderbyn yr adroddiad diweddaru'n ffurfiol.**

## 4 CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd, i'r pwyllgor ei ystyried a'i graffu, adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a oedd yn cynnwys ymateb arfaethedig Cyngor Môn i'r ymgynghoriad ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Cyflwynodd yr adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, ac roedd yn amlinellu ymateb arfaethedig y Cyngor i ymgynghoriad Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn sefydlu blaenoriaethau ac ymyraethau ar gyfer gwahanol rannau o'r system drafnidiaeth ac mae'n gosod y cyfeiriad ar gyfer y bum mlynedd nesaf. Bydd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru'n cael ei reoli a'i lywodraethu gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig sydd â dyletswydd statudol i greu Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi sefydlu Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Strategol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau statudol. Mae'r is-bwyllgor wedi cyfarfod ac mae gwaith wedi'i wneud er mwyn drafftio'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Anogodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas bawb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol cyn y dyddiad cau, sef 14 Ebrill 2025, a nododd fod tua 1,400 o bobl wedi cymryd rhan yn barod a bod dros 500 o bobl wedi ymweld â'r neuadd gymuned rithwir. Cynhaliwyd dwy sesiwn galw heibio hefyd fel rhan o'r broses ymgynghori, yng Nghaergybi a Llangefni.

Esboniodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ddogfen lefel uchel sydd yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y rhanbarth. Nod ymateb arfaethedig y Cyngor i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yw cyd-bwyso blaenoriaethau strategol y rhanbarth gydag anghenion unigryw Ynys Môn, sydd, oherwydd ei natur wledig, yn wahanol iawn i rannau eraill y rhanbarth. Bydd yr ymateb drafft hefyd yn ymgorffori safbwyntiau aelodau etholedig, cynghorau tref a chymuned, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd. Gan fod disgwyl i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru: Llwybr Newydd - Strategaeth Trafnidiaeth i Gymru 2021, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau fod y dyheadau'n rhai y gellir eu cyflawni o fewn cyfyngiadau polisi Llywodraeth Cymru. Er hynny, mae adolygiad Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, ac adolygiad o wytnwch pontydd y Fenai dan arweiniad yr Arglwydd Burns, yn darparu man cychwyn cadarn. Yn y pendraw, mae llwyddiant y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn dibynnu ar argaeledd adnoddau a chapasiti i roi'r Cynllun Cyflawni ar waith yn ystod y bum mlynedd nesaf. Mae'n hanfodol felly nad yw'r Cynllun yn codi disgwyliadau'n ormodol.

Codwyd y materion canlynol gan y pwyllgor yn ystod y drafodaeth ddilynol ynglŷn â'r ymateb arfaethedig i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol –

- Oherwydd pwysigrwydd strategol Porthladd Caergybi o ran gwasanaethu Cymru, y DU ac ar lefel ryngwladol er mwyn cysylltu Iwerddon â thir mawr Ewrop, holwyd am amserlen ar gyfer ailagor y porthladd yn llawn ar ôl iddo gael ei ddifrodi yn ystod Storm Daragh.

Hysbyswyd y pwyllgor bod disgwyl i'r ail angorfa a ddifrodwyd ailagor erbyn haf 2025, ond mae'n hynny'n amodol ar dderbyn cadarnhad gan Stena. Ffurfiwyd grŵp tasg gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru er mwyn archwilio pwysigrwydd y porthladd ac mae Arweinydd y Cyngor yn aelod o'r grŵp hwnnw. Nododd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo nad yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn

cynnwys rheilffyrdd a phriffyrdd ond, serch hynny, mae ymateb drafft y Cyngor wedi manteisio ar yr ymgynghoriad cyhoeddus i amlygu pryderon ynglŷn â gwytnwch pontydd y Fenai, ansawdd y rhwydwaith ffyrdd i Borthladd Caergybi a diffyg cyfleusterau ar gyfer gyrwyr lorïau, a hynny oherwydd arwyddocâd y materion hynny i'r Ynys.

- I ba raddau fydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dylanwadu ar fersiwn derfynol y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac a fydd gan y Cyngor unrhyw ddylanwad ar y fersiwn derfynol.

Hysbyswyd y pwyllgor y byddai ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu casglu a'u dadansoddi gan grŵp ymgynghorol Arup a byddant yn defnyddio dull adborth 'Dywedoch chi, Gwnaethom ni'. Cyflwynir adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad i'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Strategol ym mis Mehefin ac i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ym mis Gorffennaf 2025.

- Holwyd am y berthynas rhwng y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Bil Gwasanaethau Bysiau Cymru a chynigion masnachfreinio.

Rhannwyd gwybodaeth gyda'r pwyllgor am y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n diwygio gwasanaethau bysiau yng Nghymru. Mae'r bil yn cynnig symud gwasanaethau o reolaeth cwmnïau masnachol a'u rhoi o dan drosolwg cyhoeddus gan ddefnyddio model masnachfreinio ranbarthol mewn pedwar rhanbarth - Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru. Bydd y newidiadau'n cychwyn yn Ne-orllewin Cymru yn 2027 ac yng Ngogledd Cymru yn 2028. Er ei fod yn cyd-fynd â gweledigaeth y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae llwyddiant y bil yn dibynnu ar ddarparu cyllid digonol, yn arbennig er mwyn gwella cysylltedd mewn ardaloedd gwledig lle mae prinder o wasanaethau. Mewn ymateb i gwestiynau am ddarparu adnoddau, pwysleisiodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bwysigrwydd rhoi sylw dyledus i drafnidiaeth addysg, cyllid i'r trydydd sector, grantiau a thrafnidiaeth gymunedol, law yn llaw â'r prif wasanaethau bysiau, pan fydd yr arian yn cael ei ddyrannu. Bydd integreiddio'r agweddau hyn mewn trefniadau yn y dyfodol yn allweddol er mwyn creu system drafnidiaeth unedig. Mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn ag i ba raddau fyddai'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn creu gwasanaeth di-dor, esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai awdurdodau lleol, o dan drefniadau masnachfreinio, yn rheoli llwybrau, amserlenni a ffioedd gan wella cydlyniad ac, o bosib, ganiatáu i deithwyr ddefnyddio un tocyn yn unig ar gyfer eu taith gyfan gan ddefnyddio gwahanol ddulliau trafnidiaeth.

Nododd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod ymateb arfaethedig y Cyngor i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn amlygu'r diffyg ffocws ar ryng-gysylltedd, rhywbeth sy'n hanfodol er mwyn datblygu system drafnidiaeth integredig er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cymunedau gwledig. Yn hytrach, ymddengys fod y cynllun yn canolbwyntio ar y gwahanol ddulliau trafnidiaeth ar wahân i'w gilydd.

- Mynegwyd pryderon nad yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yn rhoi digon o sylw i anghenion unigolion sy'n byw mewn cymunedau gwledig ac sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus at ddibenion gwaith a busnes. Holwyd a oes unrhyw gynlluniau trafnidiaeth cymunedol yn bodoli neu a oes bwriad i'w datblygu.

Hysbyswyd y pwyllgor fod ymateb arfaethedig y Cyngor yn codi pryderon ynglŷn ag i ba raddau mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn mynd i'r afael â'r heriau unigryw a wynebir gan gymunedau gwledig sydd ag anghenion gwahanol iawn o gymharu â threfi a dinasoedd. Mae'n pwysleisio bod rhaid canolbwyntio mwy ar ddatrysiadau pwrpasol er mwyn goresgyn yr heriau hyn. Mae'r Cyngor wedi treialu cynlluniau trafnidiaeth cymunedol

mewn rhannau o'r Ynys ac mae'n ymwybodol bod cynghorau eraill wedi edrych ar wahanol gynlluniau. Mae'r Cyngor yn bwriadu gofyn i Drafnidiaeth Cymru a'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Strategol gynnal astudiaethau i nodi'r model mwyaf addas ar gyfer ardaloedd gwledig, er mwyn sicrhau nad yw ateb trefol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer problem wledig.

- Gofynnodd y pwyllgor a oedd ymateb arfaethedig y Cyngor yn rhoi digon o bwyslais ar yr angen am gyllid digonol, gan nodi fod cyfyngiadau cyllido yn debygol o lesteirio'r hyn y gall y Cyngor ei gyflawni.

Hysbyswyd y pwyllgor fod pryderon ynglŷn â chyllido'n cael sylw yn y ddogfen wreiddiol a bod y Cyngor wedi cyfrannu at y ddogfen honno, gan godi'r pwyntiau a nodwyd. Mae newidiadau diweddar yng nghabinet Llywodraeth Cymru'n awgrymu newid posib mewn meddylfryd, gan godi gobeithion y gallai cyllido rhanbarthol yn y dyfodol gynnig mwy o hyblygrwydd er mwyn blaenoriaethu anghenion lleol. Byddai hyn yn caniatáu i'r Cyngor roi mwy o bwyslais ar fynd i'r afael ag anghenion cymunedau lleol a rhoi cynllun pwrpasol ar waith er mwyn diwallu'r anghenion hynny.

- Gofynnwyd a fyddai sylw digonol yn cael ei roi i anghenion unigolion sydd ag anableddau.

Hysbyswyd y pwyllgor fod asesiad anghenion penodol yn cael ei gynnal ar gyfer pob cynllun unigol a weithredir. Yn ei ymateb arfaethedig, mae'r Cyngor wedi gofyn a fyddai'r Arfarniad Llesiant Integredig yn berthnasol i'r rhaglen gyffredinol neu brosiectau unigol.

- Mae niferoedd teithwyr ar fysiau'n adfer yn araf ledled Cymru yn dilyn y pandemig a gofynnodd y pwyllgor a oedd hynny wedi cael ei ystyried. Gofynnodd aelodau gwestiynau hefyd ynglŷn â faint o gwymp a welwyd yn y defnydd o fysiau, ar Ynys Môn yn benodol.

Hysbyswyd y pwyllgor bod cael gafael ar ddata cywir ynglŷn â nifer teithwyr yn heriol, gan ei fod yn nwylo gweithredwyr masnachol. Yn gyffredinol, mae niferoedd teithwyr ar fysiau wedi bod yn fwy araf i ddychwelyd i'w lefelau arferol mewn ardaloedd gwledig. Ar yr Ynys, mae'r ffaith fod gweithredwyr wedi newid amserlenni yn aml a thorri gwasanaethau wedi cymhlethu'r broses o gasglu data. Er bod y data wedi'i gyhoeddi ddoe, mae'n anodd ei ymgorffori yn yr ymateb i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Awgrymodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo y byddai'n fwy priodol rhoi sylw i'r mater hwn yn yr ymateb i'r Bil Gwasanaethau Bysiau y mae'r Llywodraeth yn ymgynghori arno tan fis Mai 2025. Byddai hynny'n caniatáu amser i graffu'r data, a'i ddefnyddio i gefnogi'r egwyddor o fasnachfreinio, wrth bwysleisio pwysigrwydd darparu atebion realistig nad ydynt yn codi gobeithion yn ddiangen.

- Holwyd am gynlluniau i wella gwytnwch pontydd y Fenai.

Hysbyswyd y pwyllgor bod llythyrau a anfonwyd at Lywodraeth Cymru a Heddlu Gogledd Cymru sydd ynghlwm i'r ymateb arfaethedig i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn amlygu'r effeithiau helaeth y gall unrhyw amharu ar Bont Menai neu Bont Britannia gael ar yr ynys. Mae'r Cyngor yn mynnu mai'r broblem sylfaenol yw diffyg gwytnwch yn hytrach na diffyg capasiti. Mae astudiaethau presennol yn archwilio atebion posib, megis gosod taflwyr gwynt a allai godi'r trothwy ar gyfer cau'r pontydd oherwydd gwynt. Er hynny, efallai y bydd rhaid trafod effeithiau mesurau o'r fath gyda CADW ac mae'r gwaith yn parhau i fynd rhagddo. Mae'r Cyngor wedi mynegi pryderon ynglŷn â chynlluniau Llywodraeth Cymru pe byddai mesurau o'r fath yn aneffeithiol neu'n anymarferol, ac mae'n gofyn onid adeiladu trydedd bont yw'r datrysiad yn y pendraw.

Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr, daeth y pwyllgor i'r casgliad bod yr ymateb arfaethedig i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn gadarn a realistig a'i fod yn mynd i'r afael â'r prif faterion sy'n berthnasol i Ynys Môn. Mynegodd yr aelodau eu diolch i Swyddogion am eu hymdrechion wrth baratoi'r adroddiad. Gwnaethpwyd cais ychwanegol, sef bod aelodau'n derbyn diweddariad blynyddol ar gynnydd a statws cynlluniau trafnidiaeth/ teithio a gwaith yn eu hardaloedd eu hunain.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cymeradwyo ymateb arfaethedig Cyngor Sir Ynys Môn i'r ymgynghoriad ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, fel y caiff ei nodi yn Atodiad A i'r adroddiad a gyflwynwyd.** *(Ataliodd y Cynghorydd R. Llewelyn Jones ei bleidlais.)*

**Gweithred ychwanegol a gytunwyd - Bod aelodau'n derbyn diweddariad blynyddol ar gynnydd a statws cynlluniau trafnidiaeth/ teithio a gwaith yn eu hardaloedd eu hunain.**

## 5 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn ymgorffori Blaen Raglen Waith arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2025/26.

Mewn ymateb i awgrymiadau gan y Cynghorydd R. Llewelyn Jones ynglŷn â phynciau i'w cynnwys ar flaen raglen waith y pwyllgor, cadarnhaodd y Rheolwr Sgriwtini y byddai'n cyflwyno'r awgrymiadau i'r fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini i'w hadolygu a'u hystyried.

**Penderfynwyd cytuno'r fersiwn gyfredol o'r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2025/26.**

**Y Cynghorydd Sonia Williams**
**Cadeirydd**